IFRCS28 Alison Pritchard, Pennaeth Cymorth, CGGC (Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru)

Senedd Cymru | Welsh Parliament

Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol | Culture, Communications, Welsh Language, Sport, and International Relations Committee

Effaith Gostyngiadau Cyllid ar Ddiwylliant a Chwaraeon | Impact of Funding Reductions for Culture and Sport

Ymateb gan: Pennaeth Cymorth, CGGC (Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru)| Evidence from: Alison Pritchard, Head of Support, WCVA (Wales Council for Voluntary Action)

---

1. 1. Pa effeithiau y mae llai o gyllid wedi'u cael ar eich sefydliad a'ch sector hyd yma?

Mae mynediad at gyllid cynaliadwy yn her barhaol o fewn y sector gwirfoddol, gan gynnwys mudiadau diwylliant a chwaraeon. Amlinellodd ein hadroddiad yn 2021, Cyllid cynaliadwy ar gyfer y trydydd sector, effaith cyllid annigonol a sut aeth hyn yn waeth gan bandemig Covid-19. Heddiw, mae chwyddiant, yr argyfwng costau byw, ansefydlogrwydd gwleidyddol, llai o roddion a thoriadau i gyllidebau dim ond wedi dyfnhau'r heriau y gwnaethom eu disgrifio tair blynedd yn ôl.

Yn ddi-os, cyflwynodd cyllideb 2024-25 Llywodraeth Cymru lai o gyllid o fudiadau gwirfoddol sy'n gweithredu o fewn y meysydd chwaraeon a diwylliant. Nid yw cyllidwyr eraill wedi gallu llenwi'r bwlch y mae hyn wedi'i greu. O ganlyniad, mae llawer o fudiadau yn lleihau eu gweithgareddau, eraill yn brwydro i gadw'u pennau uwchlaw'r dŵr, a rhai wedi cau eu drysau.

Nid oes gan y mwyafrif o fudiadau gwirfoddol bychain ffrydiau incwm sydd wedi'u harallgyfeirio'n ddigonol, ac maen nhw'n dibynnu ar gyllid prosiect ar gyfer eu gweithrediad beunyddiol. Mewn llawer o ffyrdd, mae'r amgylchedd cyllido y maen nhw'n gweithredu o'i fewn yn achosi parhad yr heriau cyllido y maen nhw'n ceisio eu trechu. Cyllid prosiect tymor byr (bob blwyddyn yn aml) y mae'r rhan fwyaf o gyllidwyr yn ei gynnig, sydd dim ond yn caniatáu i fudiadau gadw lleoliadau ar agor a pharhau i ddarparu gwasanaethau. Mae'n llawer anoddach dod o hyd i gyllid craidd, anghyfyngedig. Dyma'r math o gyllid sy'n galluogi mudiadau i gyflogi codwr arian, datblygu cynllun ariannol cadarn ac arallgyfeirio eu ffrydiau incwm,

fel y gallant ymateb i ysgytwadau ariannol. Gan fod llawer o fudiadau gwirfoddol bychain yn dibynnu ar gyllid prosiect, mae'r gostyngiad sydyn mewn cyllid Llywodraeth Cymru wedi'u gadael heb lawer iawn o opsiynau i barhau i weithredu.

Mae mudiadau gwirfoddol yn y meysydd chwaraeon a diwylliant wedi'u hymwreiddio mewn cymunedau ledled Cymru. Mae llawer ohonynt wedi'u gweu'n ddwfn ym mrethyn gwasanaethau cyhoeddus a/neu'n chwarae rhan annatod fel gwarcheidwaid asedau cymunedol gwerthfawr, fel neuaddau pentref a chyfleusterau chwaraeon a hamdden. Mae eglwysi, adeiladau a meysydd chwarae nad oeddent yn cael eu defnyddio wedi cael bywyd newydd fel theatrau cymunedol, stiwdios crefft ymladd a chlybiau ieuenctid drwy brosesau Trosglwyddo Asedau Cymunedol (CATs). Pan na fydd y mudiadau gwirfoddol sy'n eu rhedeg yn gallu cadw eu drysau ar agor mwyach, byddwn hefyd yn colli defnydd ehangach y lleoliadau hyn fel hybiau cynnes, banciau bwyd a chlybiau cymdeithasol. Bydd colli'r cyllid ar gyfer diwylliant a chwaraeon yn debygol o effeithio ar fudiadau gwirfoddol y tu hwnt i'r cwmpasau hyn wrth i fuddion atal, cydlyniant cymunedol, trechu unigrwydd ac ymddygiad cymdeithasol gael eu colli.

2. 2. Pa fesurau ydych wedi'u cymryd o ganlyniad i hyn, megis newid beth rydych yn ei wneud a sut rydych yn ei wneud?

3. 3. I ba raddau y bydd yr effeithiau hyn yn ddiwrthdro (e.e. lleoliadau'n cau, neu sgiliau arbenigol yn cael eu colli, yn hytrach na chyfyngiad dros dro ar weithgareddau)?

Yn aml, mae gostyngiadau sylweddol mewn cyllid yn arwain at golledion y tu hwnt i leihau gwasanaethau dros dro. Gan fod mudiadau yn brwydro i fodloni'r un costau a galw am wasanaethau, os nad yn fwy, gyda llai o refeniw, caiff pob gweithgaredd arall flaenoriaeth is. Efallai y bydd gofyn i staff a oedd yn arfer bod yn gyfrifol am godi arian, rheoli gwirfoddolwyr neu gynnig allgymorth cymunedol gymryd mwy o ran mewn darparu gwasanaethau rheng flaen neu efallai y byddant yn colli eu swyddi. Mae heriau ariannol mudiadau yn dyfnhau heb fuddsoddiad mewn gweithgareddau codi arian, gan greu cylchred cythreulig. Pan gaiff rhaglenni gwirfoddolwyr eu torri, collir yr amser, yr arbenigedd, y profiadau bywyd a'r gefnogaeth gymunedol a gyflwynir gan wirfoddolwyr. Nid yw ail-ymgysylltu â gwirfoddolwyr yn broses ddi-dor nac am ddim. Heb allgymorth

cymunedol, caiff grwpiau ar yr ymylon, y rhai sydd siŵr o fod wedi colli pob mynediad arall at chwaraeon a diwylliant, eu gadael ar ôl.

Mae rhai mudiadau chwaraeon a diwylliant yn rheoli mannau arwyddocaol i gymunedau lleol. Yn aml, bydd y rhain yn lleoliadau nad ydynt yn denu rhyw lawer o ddiddordeb masnachol oherwydd costau rhedeg uchel, rheoliadau llym neu ddefnydd cyfyngedig yn achos adeiladau rhestredig. Mae rhai mudiadau wedi'u sefydlu gyda'r un diben o gaffael a rheoli lleoliad. Mae llawer wedi codi cannoedd ar filoedd o bunnoedd ac wedi dibynnu ar wirfoddolwyr i adnewyddu eu hadeilad. Os na fydd mudiadau yn gallu staffio neu dalu costau rhedeg y lleoliad mwyach, ni fydd yr ased yn cael ei ddefnyddio a bydd ei gyflwr yn dirywio. Gallai ei ddychwelyd i gyflwr y gellir ei ddefnyddio fod yn amhosibl heb fuddsoddiad sylweddol pellach.

4. 4. Pa ymyriadau yr hoffech eu gweld gan Lywodraeth Cymru, y tu hwnt i ragor o gyllid?

Hoffem weld swyddogion Llywodraeth Cymru yn cydymffurfio'n llawn â'r Cod Ymarfer ar gyfer Ariannu'r Trydydd Sector. Dros y ddwy flynedd ddiwethaf, mae cynrychiolwyr y sector wedi bod yn gweithio ochr yn ochr â Chanolfan Ragoriaeth Grantiau Llywodraeth Cymru i ailwampio'r cod gwreiddiol o 2014. Mae pum egwyddor newydd wedi'u cytuno fel a ganlyn:

- Deialog gynnar a pharhaus
- hyblygrwydd
- sail ariannu briodol
- tegwch
- gwerthfawrogi a chanlyniadau

Dylai Llywodraeth Cymru ymhél â mudiadau gwirfoddol wrth lunio polisïau a gwneud penderfyniadau sy'n ymwneud â gwariant ataliol. Gwnaeth y gyllideb ddiwethaf adael arweinwyr y sector gwirfoddol mewn braw ynghylch cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru a chyfeiriad teithio'r dyfodol, ac roedd y gyllideb honno, yn ein barn ni, yn anghydnaws â nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Dylid rhoi ystyriaeth briodol i amrywiaeth ehangach o seiliau ariannu, gan gynnwys adennill costau llawn, cyllid amlflwyddyn, a chyllid

craidd/anghyfyngedig. Serch y *dystiolaeth gref o blaid cyllid amlflwyddyn a chanllawiau presennol Llywodraeth Cymru, prin iawn yw'r grantiau amlflwyddyn ar gyfer y sector o hyd. Ni all mudiadau gwirfoddol ddod yn fwy ariannol wydn heb fuddsoddiad mewn gweithgareddau nad ydynt yn rhan o brosiect sy'n cynyddu eu gallu i gynhyrchu incwm. Byddai buddsoddi mewn cyllid craidd hefyd yn eu helpu i arloesi ac ehangu eu capasiti drwy gynyddu eu sgiliau digidol, arallgyfeirio eu hincwm, a denu mwy o wirfoddolwyr, ymddiriedolwyr a buddiolwyr.

Dylai deiliaid portffolios Llywodraeth Cymru weithio gyda'i gilydd a chydlynu eu penderfyniadau cyllidebol fel nad yw mudiadau gwirfoddol yn y meysydd chwaraeon a diwylliant yn cael eu heffeithio'n anghymesur gan effaith gronnol toriadau i gyllidebau a cholli grantiau.

5. 5. I ba raddau y mae'r effeithiau a ddisgrifiwch yn cael effaith wahanol ar bobl â nodweddion gwarchodedig a phobl o statws economaidd-gymdeithasol is?

Yn aml, mae mudiadau gwirfoddol yn darparu gwasanaethau a chyfleoedd am ddim neu lawer rhatach i unigolion na fyddai â mynediad iddynt fel arall. Bydd torri cyllid mudiadau gwirfoddol sy'n darparu gweithgareddau chwaraeon a diwylliant, felly, yn effeithio'n anghymesur ar grwpiau ar yr ymylon, sy'n cynnwys pobl â nodweddion gwarchodedig a statws economaidd-gymdeithasol is. Ni fydd rhai mudiadau sy'n gweithio gyda chymunedau ar yr ymylon yn bodoli mwyach, ac mae'n bosibl na fydd gan fudiadau eraill gyllid i dalu'r costau o ddiwallu anghenion amrywiol cymunedau gwahanol (e.e. deunyddiau aml-iaith, staff allgymorth, dehonglwyr Iaith Arwyddion Prydain (BSL)).

Bydd llai o gyllid hefyd yn rhwystro gallu mudiadau i fuddsoddi mewn cymwysiadau a gweithgareddau i helpu i amrywio eu byrddau, staff neu eu cronfeydd o wirfoddolwyr. Bydd hyn yn cael effaith negyddol ar bobl â nodweddion gwarchodedig ac ar y mudiadau eu hunain. Mae safbwyntiau amrywiol yn creu mudiadau mwy gwydn a chynaliadwy sy'n gallu cynnig adnoddau a theilwra gwasanaethau'n effeithlon i gymunedau gwahanol.

Mae gweithgareddau diwylliannol a chwaraeon yn dwyn pobl ynghyd. Mae colli cyfleoedd i gymryd rhan ar lefel gymunedol yn golygu bod llawer o gyfleoedd yn cael eu colli i hybu cydlyniant cymunedol.

6. 6. A oes gennych bwyntiau eraill yr hoffech eu codi o fewn cwmpas yr ymchwiliad hwn?